**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 5 Mehefin 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | L S Gibbard |
| M H Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| P B Smith | A H Stevens | D W W Thomas |
| L J Tyler-Lloyd | T M White | |

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr N J Davies, C R Doyle, J A Hale, I E Mann, P M Matthews, A Pugh, M Sherwood, M Sykes

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim.

---

## 5 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol:

Y Cynghorydd C R Doyle – Personol – Cais Cynllunio 2017/2677/FUL (Eitem 7 ar yr Agenda) - Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gellifedw.

Y Cynghorydd M H Jones – Personol – Cais Cynllunio 2018/0653/FUL (Eitem 1 ar yr Agenda) - Rwy'n adnabod yr ymgeisydd sy'n gyn-weithiwr yn Ysgol Gyfun yr Olchfa lle rwy'n llywodraethwr a Chais Cynllunio 2018/0943/FUL (Eitem 5) – Personol - mae fy meddygfa'n agos iawn i safle'r cais.

## 6 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a gynhaliwyd ar 1 a 24 Mai 2018 fel cofnodion cywir.

## 7 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

Dim.

## 8 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd**

1) **Cymeradwyo'r** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod(#):

**(#) (Eitem 1) Cais Cynllunio 2018/0653/FUL - Newid o ddefnydd preswyl (Dosbarth C3) i HMO 6 ystafell wely (Dosbarth C4) yn 119 Heol Port Tennant, Port Tennant, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y cyfarfod gan Dave Gill (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd J A Hale (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Adroddwyd am lythyr gwrthwynebu hwyr.

Derbyniwyd cynllun ychwanegol gan yr ymgeisydd a oedd yn dangos y byddai'r tŷ allan presennol yn cael ei ddefnyddio i storio beiciau a sbwriel. Diwygiwyd amodau 2 a 3 i ddarllen fel a ganlyn (rhesymau i aros yr un peth):
Amod 2
Rhaid ymgymryd â'r datblygiad yn unol â'r cynlluniau a'r dogfennau cymeradwy canlynol: Cynllun lleoliad safle a chynllun bloc, cefnlun presennol ac arfaethedig, cynllun llawr gwaelod arfaethedig, cynllun llawr cyntaf arfaethedig, ystlyslun ochr arfaethedig/rhan o'r ochr gorllewinol, ystlyslun presennol o Stryd Margaret (heb newid), a dderbyniwyd ar 29 Mawrth 2018, a chynllun yr adeilad storio a dderbyniwyd ar 4 Mehefin 2018.
Amod 3
Ni chaiff neb ddefnyddio'r datblygiad nes bod y tŷ allan, fel a nodwyd ar gynllun yr adeilad storio a dderbyniwyd ar 4 Mehefin 2018, yn cael ei osod yn unol â'r cynllun ac ar gael i'w ddefnyddio gan ddeiliaid yr HMO yn y dyfodol. Cedwir yr adeilad at ddibenion didoli a storio gwastraff, a storio beiciau wedi hynny.

**(#) (Eitem 2) Cais Cynllunio 2018/0659/FUL - Newid defnydd 2 uned breswyl o annedd (Dosbarth C3) i 2 HMO ar wahân - sy'n cynnwys 1 HMO â 5 ystafell wely i 5 deiliad ac 1 HMO 6 ystafell wely i 6 deiliad (Dosbarth C4) yn 40A a 40B Heol Bryn, Brynmill, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr I E Mann ac M Sherwood (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Derbyniwyd llythyr hwyr o "ddim sylw" gan y Tîm Rheoli Llygredd

**(Eitem 3) Cais Cynllunio 2018/0661/FUL - Newid adeilad presennol i ddarparu 8 uned breswyl i fyfyrwyr, ychwanegu 2 ffenestr do yn y blaen, 3 ffenestr do yn y cefn a newid y ffenestriad yn Twizzle Lodge, Rhodfa Hawthorne, Uplands, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Phil Baxter (asiant)

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr I E Mann ac M Sherwood (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

**(#) (Eitem 4) Cais Cynllunio 2018/0846/FUL - Newid o ddefnydd preswyl (Dosbarth C3) i HMO 4 ystafell wely i bedwar person (Dosbarth C4) yn 38 Rhodfa Hawthorne, Uplands, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr I E Mann ac M Sherwood (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

**(Eitem 5) Cais Cynllunio 2018/0943/FUL - Newid o ddefnydd preswyl (Dosbarth C3) i HMO 5 ystafell wely i 5 person (Dosbarth C4) yn 159 Heol King Edwards, Brynmill, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr I E Mann, P N May, N J Davies (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Adroddwyd am lythyr gwrthwynebu hwyr.

2) **Gwrthod** y cais cynllunio isod am y rhesymau a amlinellir isod:

**(Eitem 2) Cais Cynllunio 2018/0659/FUL - Newid defnydd 2 uned breswyl o annedd (Dosbarth C3) i 2 HMO ar wahân - a fydd yn cynnwys 1 HMO 5 ystafell wely i 5 deiliad ac 1 HMO ystafell wely i 6 deiliad (Dosbarth C4) yn 40A a 40B Heol Bryn, Brynmill, Abertawe**

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr I E Mann ac M Sherwood (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Derbyniwyd llythyr hwyr o "ddim sylw" gan y Tîm Rheoli Llygredd

Gwrthodwyd y cais yn groes i argymhellion y swyddog am y rhesymau canlynol: Byddai'r cynnig, ar y cyd â'r nifer mawr o Dai Amlfeddiannaeth (HMO) sydd yn Heol Bryn ar hyn o bryd (77 HMO) yn arwain at grynhoad niweidiol o HMO a mwy ohonynt yn y stryd a'r ardal ehangach. Bydd yr effaith gronnus, o ran nifer y deiliaid yn yr heol a natur y defnydd ar gyfer hyd at 11 o ddeiliaid unigol, yn arwain at niweidio cymeriad yr ardal a chydlyniant cymdeithasol, gyda mwy o breswylwyr dros dro a llai o aelwydydd a theuluoedd sefydledig tymor hir.

*Byddai'r fath effaith, yn y tymor hir, yn arwain at gymuned ehangach nad yw'n yn gytbwys nac yn hunangynhaliol. O ganlyniad, mae'r cynnig yn groes i faen prawf (ii) Polisi HC5 Cynllun Datblygu Unedol Dinas a Sir Abertawe (2008) a nodau'r polisi cenedlaethol a bennwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9 Ionawr 2016), sef creu cymunedau cymysg, cynaliadwy a chynhwysol*

**9 Abergelli Power Limited (APL) - Gorsaf Pwer sy'n Rhedeg ar Nwy.**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio a oedd yn darparu trosolwg o'r cais a gyflwynwyd gan APL am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer gorsaf bŵer nwy yn Felindre ac yn ceisio pwerau dirprwyedig i ymateb i'r sylwadau ynghylch 'Digonolrwydd Ymgynghoriad'.

Amlinellwyd y cefndir i'r cais, lleoliad y safle a'r broses ymgynghori yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** rhoi pwerau dirprwyedig i Bennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas er mwyn iddo ymateb i'r sylwadau ynghylch Digonolrwydd Ymgynghoriad gan PINS o ystyried y cyfnod ymgynghori 14 diwrnod.

**10 Cyfeirnod Cais Cynllunio 2017/2677/FUL - Datblygiad Defnydd Cymysg sy'n Cynnwys 23 o Anheddau Preswyl, Siop Goffi gyda Chyfleuster Gyrru Trwyddo a Gwaith Cysylltiedig - Tir ar Fferm Heol Ddu, Heol Gellifedw, Gellifedw, Abertawe SA7 9NS.**

Cyflwynwyd adroddiad wedi'i ddiweddaru ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas. Roedd y cais wedi'i ohirio dan y broses bleidleisio dau gam yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 1 Mai 2018 er mwyn darparu rhagor o gyngor o ran y rhesymau posib dros wrthod a godwyd gan aelodau.

Diweddarwyd yr adroddiad a gylchredwyd i adlewyrchu datganiad diwygiedig yr ymgeisydd sy'n ymwneud â'r lôn troi i'r dde a'r oriau gweithredu.

Nodwyd nad oedd argymhelliad y swyddog i gymeradwyo'r cais wedi newid.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Phil Baxter (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan Estelle Bubear (gwrthwynebydd).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr P M Matthews, M Sykes, A Pugh ac C R Doyle (aelodau lleol) a siaradodd yn erbyn agwedd fanwerthu'r datblygiad arfaethedig.

Diweddarwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Adroddwyd am lythyrau gwrthwynebu hwyr gan Mike Hedges AC a Dai Lloyd AC.

Adroddwyd am ohebiaeth gan Uned Rheoli Traffig Heddlu De Cymru a oedd yn nodi sawl mater mewn perthynas â diogelwch priffyrdd yr oedd angen i'r pwyllgor eu hystyried fel rhan o'r cynllun. Ni fwriadwyd i'r rhain fod yn wrthwynebiadau i'r cais.

**Penderfynwyd** rhoi caniatâd cynllunio yn amodol ar yr amodau a amlinellwyd yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Cynllunio ar 1 Mai 2018 ac yn amodol ar y diwygiadau i amodau 2, 21 a 26 fel y'u hamlinellir isod, ac amod ychwanegol i atal symudiadau i droi i'r dde i gerbydau sy'n gadael y cyfleuster gyrru drwodd wrth ei gyffordd â'r B4291:

Yn amodau 2 a 21, dylid rhoi ‘Ffigur 7 Rev B’ yn lle 'Ffigur 7 Rev A’.

Yn amod 26, dylid rhoi ‘6.00am i 10.00pm’ yn lle '5.00am i 11.00pm’

Amod 28:
‘Er y cynlluniau a gyflwynwyd, ni wneir unrhyw waith datblygu ar y safle nes y bydd cynllun i atal symudiadau i droi i'r dde gan gerbydau sy'n gadael y cyfleuster gyrru drwodd wrth ei gyffordd â'r B4291 yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Cwblheir y cynllun yn unol â'r manylion cymeradwy cyn dechrau defnyddio'r cyfleuster gyrru drwodd, a'i gadw fel a gymeradwywyd am oes y datblygiad.
Rheswm: Er mwyn diogelwch y briffordd’

Daeth y cyfarfod I ben am 4.19 pm

**Cadeirydd**